# Cyngor Cymuned Llandderfel.
# Cyfarfod Blynyddol.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mai 2il 2023 yn Neuadd Sarnau. Yn bresennol oedd Maldwyn Jones (cadeirydd), Alwyn Jones, Eilir Rowlands, Bethan Thomas, Gwynedd Jones, Gwenda Evans, Gwenda Morris, Dewi Pritchard, Gary Thomas a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rita Jones, Eifion Davies, Iolo V. Evans a'r Cyng. Elwyn Edwards.

i) Croesawu'r cynghorwyr.
Croesawyd y cynghorwyr i'r cyfarfod gan y cadeirydd.

ii) Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd.
Etholwyd Eifion Davies yn gadeirydd a Dewi Pritchard yn is-gadeirydd. Gan nad oedd Eifion Davies yn gallu bod yn bresennol cytunodd Maldwyn Jones i barhau yn y gadair.

iii) Cynrychiolwyr ar bwyllgorau.
Ail-etholwyd y cynrychiolwyr ar y pwyllgorau canlynol:-

Pwyllgor Un Llais Cymru: Dewis cynrychiolydd pan fydd y Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd.
Partneriaeth Penllyn/Cwmni Pum Plwy Penllyn: Eifion Davies a Gwynedd Jones.
Pwyllgor Cantref: Eilir Rowlands.
Cyfarfodydd Lleol Yr Heddlu: Alwyn Jones.

iv) Adroddiad Blynyddol y Cyngor.
Cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol roedd y Clerc wedi ei baratoi.

v) Cyfrifon 2022-23.
Cafwyd adroddiad o'r cyfrifon am y flwyddyn 2022-23 gan y clerc, a chafwyd hwy yn gywir.

vi) Archwiliad Blynyddol y Cyngor.
Roedd trefniadau mewn lle i anfon y cyfrifon i Gyngor Gwynedd, yr archwilwyr mewnol. Oherwydd pwysau gwaith nid oedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyhoeddi'r hysbysiad archwilio ar hyn o bryd.

vii) Adolygu Rhestr o ffioedd y mynwentydd.
Cytunwyd i gadw'r ffioedd yr un fath ar gyfer 2023-24.

viii) Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Cynghorwyr 2023/24.
Cofnodwyd y llythyrau a dderbyniwyd gan y cynghorwyr yn cadarnhau nad oeddynt am hawlio'r cydnabyddiaethau ariannol gorfodol.

ix) Adolygu Asedau.
Adolygwyd y rhestr asedau a chytunodd y cynghorwyr i archwilio'r llochesi bws a'r asedau eraill ac adrodd yn nol am eu cyflwr yn y cyfarfod nesaf. Yn dilyn y cyfarfod ym mis Mawrth mi roedd y clerc wedi holi amryw o seiri coed lleol ynglŷn â thrwsio'r ddwy fainc ar lwybr troed Llanfor. Dim ond un oedd wedi dangos diddordeb yn y gwaith sef Noel Lloyd a gynigwyd i'w trwsio am £100 yr un. Cytunwyd yn unfrydol i ofyn iddo wneud y gwaith.

x) Adolygu Polisïau a Rheoliadau'r Cyngor.
Adolygwyd a chytunwyd bod y Rheoliadau Sefydlog, Rheoliadau Mewnol, Cynllun Hyfforddiant, Polisi Diogelu Data ac Asesiad Risg presennol yn gywir. Adolygwyd y Rheolau Ariannol ac yn dilyn trafodaeth cytunwyd i godi'r gwerthoedd ar gyfer cyflenwi nwyddau neu gwaith, pwynt 11 (g), i £5,000 a £1,000 (dros y blynyddoedd diwethaf mae cost nwyddau wedi codi yn sylweddol ac roedd yr £500 blaenorol yn anymarferol)



Arwyddwyd: …………………………………………. Dyddiad:……………………..